



**Cefndir a Nodiadau Canllaw i Geisiadau LEADER ar gyfer
Grwpiau Gweithredu Lleol Sir Ddinbych, Sir y Fflint a
Wrecsam (Cymraeg)**

p. 2

**Background and Guidance Notes for LEADER
Applications to Denbighshire, Flintshire and Wrexham
Local Action Groups (English)**

p. 22



*Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency*



Cefndir a Nodiadau Canllaw i Geisiadau LEADER ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam

1. Cefndir: Beth yw LEADER a beth yw'r Grŵp Gweithredu Lleol (LAG)?

Cynllun yw LEADER i gefnogi prosiectau datblygu gwledig a gychwynnwyd ar y lefel lleol er mwyn ailfylhau ardaloedd gwledig a chreu swyddi. Mae'n rhan o Raglen Cymunedau Gwledig - Rhaglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru 2014 - 2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD).

‘LEADER’ yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio math arbennig o ddull datblygu lleol i ardaloedd gwledig. Daw'r enw LEADER o'r acronym Ffrangeg ‘Liaison Entre Actions pour le Development de L'Economie Rurale’ (sef yn fras ‘cysylltiadau rhwng gweithredoedd i ddatblygu'r economi wledig’). Mae dull LEADER yn golygu methodoleg datblygu gwledig sy'n seiliedig ar nifer o elfennau craidd yn cynnwys partneriaeth, datblygu o'r gwaelod i fyn, arloesi a chydweithredu.

Caiff rhaglen LEADER ei gweithredu gan Grwpiau Gweithredu Lleol (LAGs). Mae tri LAG yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, pob un yn gweithredu ar sail sirol yn ardaloedd gwledig Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae pob LAG yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol/gwirfoddol. Cadwyn Clwyd yw'r Corff Gweinyddu i bob LAG, yn helpu pob un i weithredu ei raglen LEADER yn eu hardaloedd nhw.

Y LAG sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar sut mae arian LEADER yn cael ei ddosbarthu ym mhob ardal. Mae Cadwyn Clwyd yn gyfrifol am ddarparu cefnogaeth weinyddol a thechnegol a helpu i roi prosiectau ar waith yn unol â chyfarwyddyd y LAG. Mae gan bob LAG yn y tair ardal sirol 18 o aelodau, gyda 6 aelod yr un o'r sectorau preifat, cymunedol a chyhoeddus. Mae gan bob LAG hefyd nifer o rai sy'n cyngori'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Mae'r LAGs yn cwrdd bob chwarter i fonitro sut y cyflawnir y rhaglen, gweithredu'r Strategaeth Datblygu Lleol (SDLI) ac arfarnu ceisiadau am gyllid.

Mae gan bob LAG Strategaeth Datblygu Lleol (SDLI) sy'n cynnwys cyfres o weithredoedd ac amcanion datblygu gwledig a awgrymwyd gan gymunedau lleol yn ardal y LAG. Mae arloesi yn rhan bwysig o fethodoleg LEADER. Drwy hyrwyddo arloesi, nod y LAGs yw annog cyrraedd busnesau lleol i roi prawf ar ffyrdd newydd o ddatblygu eu hardaloedd. Bu LEADER yn hynod effeithiol yn ysgogi pob math o wahanol syniadau cymdeithasol-economaidd ac amgylcheddol newydd drwy'r Ewrop wledig. Mae'r gwahanol ffyrdd y mae'r arloesi hwn yn cael ei fynegi gan LEADER yn cynnwys:


- Gweithio mewn ffyrdd newydd: gallai hyn olygu dulliau gweithredu datblygu gwledig sy'n rhoi syniadau newydd ar waith, defnyddio technegau newydd, rhoi sylw ar farchnadoedd gwahanol, dod â sectorau a rhanddeiliaid amrywiol at ei gilydd drwy ddulliau rhwydweithio newydd, cefnogi grwpiau blaenoriaeth newydd, neu ddod o hyd i atebion newydd i heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

- Datblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd: mae'r rhain yn aml yn deillio o brofi ffyrdd arloesol o weithio a gellir eu creu drwy ddefnyddio technegau newydd neu wreiddiol, partneriaethau, technoleg, prosesau, ymchwil a meddwl.
- Mae addasu dulliau a brofwyd i amgylchiadau newydd yn cael ei gydnabod hefyd fel ffordd effeithiol o greu datblygiadau gwledig arloesol sy'n arwyddocaol yn lleol. Caiff y mathau hyn o weithredoedd arloesol eu hwyluso'n aml drwy drosglwyddo gwybodaeth rhwng rhanbarthau neu Aelod-Wladwriaethau.

Bu'r agwedd Ewropeaidd o LEADER bob amser yn nodwedd bwysig o'r fethodoleg. Mae rhannau penodol o gyllidebau Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) y LAGs yn cael eu rhoi ar gyfer cydweithredu trawsyladol (*Transnational Cooperation - TNC*). Mae TNC yn golygu ymgymryd â phrosiect datblygu gwledig ar y cyd ag o leiaf un ardal arall mewn gwlad arall. Gall TNC fod, ymhlið pethau eraill, yn ffordd o gael digon o bobl i gymryd rhan mewn gweithgaredd i'w wneud yn hyblyg, neu fel ffordd o annog camau cydategol, e.e. cwmnïau busnes gwledig o wahanol ardaloedd yn marchnata cynnrych neu wasanaethau lleol ar y cyd, megis cynlluniau bwyd neu dwristiaeth. Mae dysgu y naill gan y llall yn ganlyniad defnyddiol o brosiectau TNC. Mae TNC yn helpu pobl wledig i ddysgu gan eu cyfoedion mewn gwledydd eraill am syniadau newydd ar gyfer prosiectau datblygu lleol. Mae cydweithrediad LAG o'r fath wedi creu llawer iawn o gyd-fuddion i nifer o ardaloedd gwledig gwahanol ar draws yr UE.

Mae LEADER yn seiliedig ar saith egwyddor – a rhaid i'r saith ddod at ei gilydd er mwyn iddo fod yn llwyddiannus.

Saith nodwedd allweddol LEADER



Prif fanteision dull gweithredu LEADER yw:

- Mae pobl leol yn gwybod yn well am yr heriau lleol sydd angen eu taclo a'r adnoddau a'r cyfleoedd sydd ar gael.
- Maent yn gallu rhoi adnoddau lleol ar waith ar gyfer y broses ddatblygu mewn ffordd nad yw'n digwydd gyda'r dulliau "top i lawr" traddodiadol.
- Mae hyn yn rhoi gwell syniad o berchnogaeth i'r bobl leol ac ymrwymiad i'r prosiectau, sydd yn ei dro'n eu galluogi i elwa i'r eithaf ar eu hasedau lleol.

- Gall y dull helpu i ddatblygu ymddiriedaeth a gweithio cadarnhaol ymhlieth y gymuned a busnesau lleol.

2. Strategaeth Datblygu Lleol LEADER (SDLI)

Mae gan bob ardal sirol Strategaeth Datblygu Lleol (SDLI) sy'n darparu fframwaith ar sut y bydd cyllid LEADER yn cael ei ddefnyddio yn yr ardal. Mae'r Strategaeth Datblygu Lleol yn canolbwytio'i hymyriadau o gwmpas 5 thema, sef:

1. Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol ac adnoddau naturiol a diwylliannol
2. Hwyluso datblygu cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr
3. Archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol
4. Ynni adnewyddadwy ar lefel Gymunedol
5. Manteisio ar dechnoleg ddigidol

Mae'n rhaid i brosiect gyd-fynd ag un o'r themâu a restrir uchod.

Gellir canfod Strategaethau Datblygu Lleol Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam ar wefan Cadwyn Clwyd:

http://www.cadwynclwyd.co.uk/news/local_development_strategies

Mae diagramau sy'n crynhoi pob Strategaeth Datblygu Lleol – ei gweledigaeth, nodau, amcanion a blaenoriaethau – ar gael hefyd.

3. Themâu trawstoriadol

Mae gan y Grwpiau Gweithredu Lleol gyfrifoldeb i wneud y mwyaf o gyfraniad y rhaglenni LEADER lleol tuag at dair thema drawstoriadol:

Cyfreithwriad a'r iaith Gymraeg

Mae'n rhaid i'r LAG sicrhau nad oes effeithiau negyddol anghymesur yn digwydd i'r grwpiau nodweddion gwarchodedig isod drwy unrhyw weithredoedd a ariennir gan LEADER:

- Yr iaith Gymraeg a siaradwyr Cymraeg.
- Oed (yn ymdrin â phob grŵp oedran, gan fod yn arbennig o ymwybodol o blant o dan 16, pobl ifanc 16-24 oed, a phobl hŷn 65 oed a throsodd).
- Anabledd (a all gynnwys pobl â nam ar y synhwyrau, nam symudedd, anableddau dysgu ac anableddau lles meddyliol).
- Ailbennu rhywedd (yn cynnwys pobl sydd ar unrhyw gyfnod o therapi ailbennu rhywedd).
- Priodas a phartneriaeth sifil (gyda'r sylw'n unig ar gam-wahaniaethu ar sail a yw rhywun mewn priodas neu bartneriaeth sifil - nid yw pobl sengl yn dod o dan y nodwedd hon).
- Beichiogrwydd a mamolaeth (yn cynnwys merched beichiog a mamau sy'n bwydo o'r fron);
- Hil ac ethnigrwydd (a all gynnwys tarddiad ethnig neu genedl, lliw neu genedligrwydd).
- Crefydd neu gred (a all gynnwys pob grŵp crefydd, ffydd neu gred, yn cynnwys dim cred).
- Rhyw / rhywedd (yn cynnwys merched a dynion).
- Cyfeiriadedd rhywiol (yn cynnwys heterorywolion, a lesbiaid, dynion hoyw a phobl ddeurywiol (LGB)).

Taclo Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol

Bydd y LAG yn gwneud cyfraniad positif at daclo rhai o achosion sylfaenol tlodi, amddifadedd ac allgáu mewn cymunedau gwledig drwy fuddsoddi mewn gweithredoedd sy'n helpu i daclo tlodi

- Buddsoddi mewn tlodi tanwydd ymhliith pobl hŷn ac anabl fregus:
- Buddsoddi mewn gweithredoedd sy'n creu cyfleoedd i bobl ifanc nad ydynt mewn gwaith neu addysg (NEET).
- Buddsoddi mewn gweithredoedd sy'n cynnal ac yn gwella mynediad cyfartal i wasanaethau sylfaenol i helpu i daclo allgáu ariannol a chymdeithasol.
- Buddsoddi mewn gweithredoedd sy'n mynd i'r afael ag allgáu digidol.

Datblygu Cynaliadwy

Mae'r LAG yn bwriadu cefnogi datblygu cynaliadwy drwy:

- Fuddsoddi mewn gweithredoedd sy'n cefnogi cadwraeth rheoli, defnydd cynaliadwy a mwynhad o'r tirwedd naturiol a gwelliannau i'r amgylchedd.
- Buddsoddi mewn cysyniadau cyn-fasnachu a threialu busnesau newydd sy'n gwella'r amgylchedd, yn hyrwyddo cynnyrch lleol ac yn hybu'r amgylchedd naturiol fel ased masnachol cadarnhaol.
- Buddsoddi mewn gweithredoedd sy'n cefnogi cynlluniau cludiant cymunedol cynaliadwy a charbon isel, trosglwyddo asedau a defnyddio gwirfoddolwyr mewn mentrau cymdeithasol i helpu i gyflawni gwelliannau ffisegol a naturiol.
- Buddsoddi mewn gweithredoedd sy'n cefnogi, cynghori a phrofi/treialu technolegau ynni adnewyddadwy a yrrir gan y gymuned, lledaenu gwybodaeth am ynni adnewyddadwy ar lefel gymunedol a helpu i ail-fuddsoddi mewn modd cynaliadwy y refeniw a ddaw yn sgil y rhain.
- Buddsoddi mewn gweithredoedd sy'n annog caffael a defnyddio caledwedd TGCh Energy Star sy'n hynod effeithlon ac sy'n defnyddio offer a ailgylchwyd ac a ailddefnyddir lle'n briodol.

Covid-19

Mae pandemig Covid wedi cael effaith sylweddol ar gymunedau yn ardal y GLL, mewn agweddau iechyd, economaidd a chymdeithasol. Mae canllawiau diwygiedig LIC (dyddiedig Mehefin 2020) yn nodi'r angen i gefnogi'r pobol a'r cymunedau mwyaf bregus i niwed. Mae blaenoriaethau uniongyrchol ar lawr gwlad yn cynnwys:

- sicrhau a dosbarthu bwyd a chyflenwadau meddygol i bawb, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u hynysu'n
- Nodi adnoddau lleol yn cynnwys cydlynwyr a chefnogi cadwyni cyflenwi byr,
- Rhwydweithio a chydweithio i sicrhau dull hyddysg a phriodol o ddiwallu anghenion lleol

Bydd hefyd angen gweithio gyda'n cymunedau gwledig wrth i ni symud ymlaen o'r ymateb i'r cyfnod adfer i helpu i fynd i'r afael ag effeithiau economaidd-gymdeithasol a chymdeithasol eraill y cloi, megis yr effaith economaidd ar rai grwpiau o fethu â gweithio, effeithiau ar fusnesau o fod ar gau neu wynebu galw llai gan gwsmeriaid, niwed seicolegol i'r cyhoedd o ran ymbellhau cymdeithasol a llawer o rai eraill. Ystyri'r bod y 5 thema LEADER sy'n bodoli ar gyfer strategaeth datblygu lleol yn berthnasol wrth gefnogi'r ymateb i'r blaenoriaethau'r COVID-19 a nodir uchod, a hefyd i gamau adfer yn y dyfodol. Bydd gofyn i geisiadau am brosiectau ddangos yn glir sut maent yn cyfrannu at yr uchod. Ceir mwy o wybodaeth ar y themâu trawstoriadol yn y Strategaethau Datblygu Lleol (Adran 8.1).

4. Ardaloedd cymwys

Yn dilyn mae rhestr o'r ardaloedd gwledig cymwys ym mhob ardal Sirol:

Sir Ddinbych	Sir y Fflint	Wrecsam
Ward Gwledig	Ward Gwledig	Ward Gwledig
Bodelwyddan	Brynfod	Bronington
Corwen	Mynydd Bwcle	Brymbo
Dinbych Ganol	Caergwrle	Bryn Cefn
Dinbych Is	Caerwys	Gogledd y Waun
Dinbych Uwch/Henllan	Cilcain	De'r Waun
Efenechtyd	Ffynnongroyw	Coedpoeth
Llanarmon-yn-lal/Llandegla	Fflint Oakenholt	Dyffryn Ceiriog
Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	Fflint Trelawnyd	Esclusham
Llandrillo	Gronant	Dwyrain a Gorllewin Gresfordd
Llandyrnog	Gwernaffield	Gwenfro
Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	Gwernymynydd	Gogledd Gwersyllt
Llangollen	Helygain	Holt
Llanrhaeadr-ying-Nghinmeirch	Higher Kinnerton	Llangollen Wledig
Rhuddlan	Yr Hôb	Llai
Rhuthun	Coed Llai	Marchwiel
Dwyrain Llanelwy	Llanfynydd	Marford a Hoseley
Gorllewin Llanelwy	Yr Wyddgrug Broncoed	Minera
Trefnant	Dwyrain yr Wyddgrug	Wrtyr
Tremeirchion	De'r Wyddgrug	Penycae a De Rhiwabon
	Gorllewin yr Wyddgrug	Ponciau
Canolfan Wasanaethu	Mostyn	Yr Orsedd
Dyserth	New Brighton	Rhiwabon
	Llaneurgain	
	Northop Hall	Canolfan Wasanaethu
	Penyffordd	Cefn
	Saltney Mold Junction	
	Sealand	Wardiau Cartref
	Trelawnyd a Gwaenysgor	Brynyffynnon
	Treuddyn	Grosvenor
	Chwitffordd	Maesydre
		Smithfield
	Canolfan Wasanaethu	
	CW Canol Treffynnon	
	Cw Dwyrain Treffynnon	
	CW Gorllewin Treffynnon	


Ward Gwledig: Mae prosiectau sydd wedi'u lleoli mewn Wardiau Gwledig yn gymwys i gael cefnogaeth LEADER


Canolfan Wasanaethu: Gall prosiectau gael eu lleoli mewn Ward Canolfan Wasanaethau, ond ni all mwy na 30% o fuddion y rhaglen LEADER leol ddod i'r wardiau hyn.

Ward Gartref: Gall prosiect gael ei leoli mewn Ward Gartref am resymau ymarferol neu weithredol, ond ni all dim o'r buddiannau sy'n deillio o'r prosiect ddod i'r ward ei hun; rhaid i'r buddiolwyr ddod o'r wardiau gwledig cymwys.

Ardaloedd Anghymwys

Sir Ddinbych	Sir y Fflint	Wrecsam
Ward Anghymwys	Ward Anghymwys	Ward Anghymwys
Prestatyn Canol	Argoed	Acton
Prestatyn Dwyrain	Aston	Parc Borras
Prestatyn Gallt Melyd	Dwyrain Bagillt	Catref;e
Prestatyn Gogledd	Gorllewin Bagillt	Erddig
Prestatyn De Orllewin	Gogledd ddwyrain Brychdyn	Garden Village
Y Rhyl Dwyrain	De Brychdyn	Dwyrain a De Gwersyllt
Y Rhyl De	Bwcle Gorllewin Bistre	Gorllewin Gwersyllt
Y Rhyl De Ddwyrain	Bwcle Pentrobin	Hermitage
Y Rhyl De Orllewin	Canol Cei Connah	Tre Loan
Y Rhyl Gorllewin	Golftyn Cei Connah	Little Acton
	De Cei Connah	New Broughton
	Gwepra Cei Connah	Offa
	Castell y Fflint	Pant
	Cwnsyllt y Fflint	Plas Madoc
	Maesglas	Penycae
	Penarlag	Queensway
	Mancot	Rhosesni
	Queensferry	Stansty
	Saltney Stonebridge	Whitegate
	Dwyrain Shotton	Wynnstay
	Shotton Uchaf	
	Gorllewin Shotton	





5. Gweithgareddau Prosiect Cymwys

Mae gweithgareddau prosiect sy'n cyfrannu at gyflawni amcanion y Strategaeth Datblygu Lleol yn gymwys. Mae'r canlynol yn enghreiftiau o gostau cymwys:

Mentora - yn bennaf costau refeniw i bobl a all roi mathau arbennig o gefnogaeth i sefydliadau a grwpiau i'w helpu i ddatblygu eu sgiliau a'u harbenigedd eu hunain. Mae hyn yn wahanol i hyfforddiant.

Hyfforddiant - yn bennaf costau refeniw, er y gallai rhai eitemau bach o offer ddod o dan gwmpas hyfforddiant, i ddatblygu a chyflwyno cyrsiau mwy ffurfiol i grwpiau o bobl. Gall hyn fod mewn ystafell ddosbarth neu ddarllithfa neu debyg ond ddim o reidrwydd. Byddai'r pwnc a'r deilliont a fwriedir wedi cael eu penderfynu gan ryw fath o asesiad sgiliau cyn i'r cwrs gael ei gyflwyno.

Astudiaethau Dichonoldeb - costau refeniw i gyfuniad o amser staff a chostau ymgynghoriaeth i i wneud yr ymchwil gefndir ar gyfer problem neu fater penodol a chynhyrchu arfaniad ysgrifenedig cynhwysfawr o'r materion, yr atebion posibl, y costau ariannol, dadansoddiad risg manwl ac argymhellion ar gyfer y camau nesaf. Ni ddylai casgliad astudiaeth ddichonoldeb fod yn argymhelliaid fod angen astudiaeth bellach. Wedi'i chwblhau, dylai astudiaeth ddichonoldeb ddangos y canlynol o leiaf:

- Disgrifiad manwl o'r broblem y disgwylir i unrhyw gynnig sy'n dilyn ei thaclo, gyda chyfeiriad arbennig at yr union neu'r darpar randdeiliaid a'u hanghenion. Dylai ddangos hefyd sefyllfa gyfredol yr ymgeisydd mewn perthynas â'r broblem a beth y disgwylir iddynt ei wneud ar ddiwedd y prosiect

- Manylion y camau i'w cymryd o dan y cynnig, yn cynnig pob eitem y gofynnir am grant ar eu cyfer
- Pam fod angen y camau hyn yn y busnes, y cwmni neu'r sector dan sylw
- Eglurhad o fanteision y cynnig, yn enwedig yn y tymor hir
- Yn achos cynnig busnes neu gwmni newydd, pam na ellir defnyddio'r strwythurau presennol
- Amcanestyniad llif arian tair blynedd i'r cynnig, yn dangos sut y bydd yn cael ei weithredu a'i ariannu
- Cynllun busnes tair blynedd i'r cynnig
- Argymhelliaid clir am hyfywedd tebygol y prosiect

Prosiectau Peilot - gweithgareddau ar raddfa fechan ac wedi'u cyfyngu i amser ar gyfer profi cysyniad neu roi cynnig ar dechneg arloesol i weld a ellid datblygu syniad yn brosiect gwired dadwy llawn. Mae'n rhaid i'r holl wybodaeth a gasglwyd o'r prosiect peilot fod ar gael yn hawdd fel y gall eraill y tu allan i'r cwmni ei hun neu'r LAG weld yr hyn a wnaed a sut mae'n gweithio. Gall y prosiect gynnwys gwariant refeniw neu gyfalaf o fewn y terfynau cyfalaf, sef hyd at £10,000. Ni chaniateir cyfanswm gwariant cyfalaf ar y prosiect dros £10,000.

6. Gweithgareddau Anghymwys

Ni ellir defnyddio mesur LEADER i roi cymorth neu help arall a fyddai'n cyfateb i gymorth gwladriniaethol o ran busnes, cwmni, menter neu 'weithredwr economaidd' yn derbyn cefnogaeth o'r fath. Golyga hyn na all LAGs roi unrhyw fath o gymorth a fyddai'n gostwng costau rhedeg gweithredol dydd i ddydd y busnes, cwmni, menter neu 'weithredwr economaidd' megis: sybsideiddio cyflogau staff neu roi cymorth ariannol – yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol – tuag at rent, trethi, costau ynni, hyrwyddo, cyhoeddusrwydd, hysbysebu a/neu unrhyw gostau rhedeg neu orbenion eraill.

Ni ellir defnyddio mesur LEADER i roi grantiau cyfalaf neu refeniw neu ffurfiau eraill o gymorth uniongyrchol neu anuniongyrchol i fusnesau masnachol. Mae hyn yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i; grantiau cyfalaf tuag at adeiladau ac offer; unrhyw fath o gymorth dechrau busnes; bwrsariaethau busnes; cymorth drwy ddarparu nwyddau neu wasanaethau wedi'u sybsideiddio (er engraifft, peiriannau a/neu offer a roddir ar fenthyg) i fusnes. Nid yw cymorth ariannol uniongyrchol; benthyciadau; cymorth ariannol i ddatblygu cynyrrch newydd; neu ddulliau eraill o gymorth ariannol anuniongyrchol i fusnes, fel marchnata i gael cyhoeddusrwydd neu weithgareddau hyrwyddo sydd am ddim neu yn rhatach i fusnes, yn gymwys chwaith.

Mae unrhyw wariant ar weithgareddau anghymwys fel grantiau cyfalaf neu refeniw i fusnesau masnachol neu gymorth arall a fyddai'n golygu Cymorth Gwladwriaethol **yn anghymwys** o dan fesur LEADER.

Mae'r eitemau neu'r mathau gwariant canlynol yn **anghymwys** o dan fesur LEADER:

- prynu stoc masnachu;
- prynu tir;
- prynu adeiladau;
- prynu ceir, faniau, beiciau modur, beics ac unrhyw fath arall o drafnidiaeth bersonol (at ba ddiben bynnag);
- prynu cerbydau ar gyfer cludiant allanol (fel lorïau, bysiau, faniau, bysiau mini neu unrhyw fath arall o gerbyd a ddefnyddir i gludo nwyddau neu bobl);

- unrhyw waith safle ffisegol neu unrhyw wariant arall a wynebir cyn dyddiad dechrau'r prosiect heb gymeradwyaeth ysgrifenedig blaenorol gan y rhoddwr grant;
- gwaith dros dro nad yw'n **uniongyrchol** gysylltiedig â gweithredu'r prosiect;
- costau cynnal a chadw adeiladau, cyfarpar neu offer sydd yno'n barod;
- prynu eitemau cyfatebol;
- costau sy'n gysylltiedig â chytundeb lesio fel elw'r lesydd, costau talu llog, gorbenion a thaliadau yswiriant;
- costau trefnu benthyciadau, TAW a threthi eraill y gall y buddiolwr eu hadennill, costau gweinyddu a staff neu iawndal a delir i drydydd parti am ddifediant, ayb.;
- gorbenion a ddyrennir neu a ddosrennir ar gyfraddau sydd gryn dipyn yn uwch na chyfraddau costau tebyg a geir gan ffyrdd eraill cyffelyb o'u cyflawni;
- gwariant tybiannol;
- taliadau am weithgaredd o natur wleidyddol;
- dibrisiant, amorteiddiad a lleihad yng ngwerth asedau a brynwyd gyda chymorth grant Ewropeaidd;
- darpariaethau;
- rhwymedigaethau digwyddiadol;
- hapddigwyddiadau;
- difidendau i gyfranddalwyr;
- taliadau llog (oni bai o dan gynllun Cymorth Gwladwriaethol a gymeradwywyd);
- taliadau gwasanaeth sy'n deillio o lesau cyllid, hur bwrcas a threfniadau credyd;
- costau sy'n deillio o ohirio taliadau i gredydwyr;
- costau sydd ynghlwm â dirwyn cwmni masnachol i ben;
- taliadau am bensiynau nas ariannwyd;
- iawndal am golli swydd;
- dyledion drwg yn deillio o fenthyciadau i weithwyr, perchnogion, partneriaid, cyfarwyddwyr, gwarantwyr, cyfranddalwyr neu berson sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r rhain;
- taliadau am roddion a chyfraniadau;
- adloniant personol (yn cynnwys alcohol);
- dirwyon a chosbau statudol;
- dirwyon ac iawndal cyfreithiol;
- costau cyfreithiol pan fo ymgyfreithia;
- TAW y gellir ei adennill;
- costau swyddogion sefydliadau trydydd parti

Dylid gofyn am gyngor gan swyddogion prosiect Cadwyn Clwyd os oes ansicrwydd.

7. Y Broses Ymgeisio

Rhaid gofyn am gyngor swyddogion prosiect Cadwyn Clwyd cyn llenwi Ffurflen Cynnig Prosiect. Bydd angen i'r grŵp sy'n ymgeisio gael Rhif Cyfeirnod Cwsmer (CRN) gan Lywodraeth Cymru cyn mynd ymlaen.

Caiff y Ffurfenni Cynnig Prosiect a lenwyd eu harfarnu'n dechnegol gan Cadwyn Clwyd, cyn mynd i'r LAG, sy'n penderfynu p'un ai i roi cymorth ariannol i'r prosiect ai peidio. Mae'r broses hon yn digwydd bob chwarter.

Mae arfarniad technegol Cadwyn Clwyd yn ystyried a yw'r prosiect yn gymwys. Rhoddir sgoriau meintiol i'r cynigion prosiect yn erbyn y meini prawf canlynol:

- A. Sut mae'r prosiect yn cyd-fynd â Strategaeth Datblygu Lleol LEADER
- B. Arloesedd y prosiect a gweithredu dull LEADER
- C. Cyfraniad y prosiect tuag at daclo tlodi a chyfrannu tuag at swyddi a thwf
- D. Mynd i'r afael ag effaith Covid-19
- E. Gwerth am arian (allbynnau'r prosiect yn erbyn gwariant)
- F. Arian Cyfatebol
- G. Y deilliannau a ragwelir

SGÔR	DOSBARTH
9-10	Ardderchog - Mae'r cynnig yn un cryf, yn cyflawni'r meinu prawf ac yn cynnig digon o wybodaeth i brofi hyn
7-8	Da Iawn - Mae'r cynnig yn cyflawni'r meinu prawf ond mae rhai amheun bychain
5-6	Da - Mae'r cynnig yn cyflawni'r meinu prawf i ryw raddau, ond mae amheun
3-4	Gwan - Mae'r cynnig yn wan o ran cyflawni'r meinu prawf, mae amheun yn ei gylch a does dim llawer o dystiolaeth
1-2	Gwan Iawn - Mae'r cynnig yn wan iawn o ran cyflawni'r meinu prawf, mae llawer o amheun a dim ond ychydig iawn o dystiolaeth
0	Gwael - Dyd y cynnig ddim yn cyflawni'r meinu prawf mewn unrhyw ffordd

SGÔR	ARIAN CYFATEBOL
9-10	Mae mwy na 30% o leiaf yr arian cyfatebol, a gadarnhawyd
8-9	Mae mwy na lleiafswm o 30% arian cyfatebol, heb eu cadarnhau
8	Y nawdd cyfatebol o 30% sydd ei angen, yn arian parod, wedi ei gadarnhau ac yn barod i fynd
6-7	Mae angen arian cyfatebol o 30% fel arian parod, heb eu cadarnhau (ee aros cais am gyllid arall)
4-8	Mae mwy na 30% o leiaf yr arian cyfatebol, ond mae rhai os yw mewn da
4-6	Mae'r cyllid cyfatebol o 30% sy'n ofynnol ond mae rhyw faint ohono mewn da, ffynhonnell a
4-5	Mae'r cyllid cyfatebol o 30% sy'n ofynnol ond peth ohono'n cael mewn da, ffynhonnell heb eu nodi
4-5	Mae'r arian cyfatebol 30 % sy'n ofynnol ond mae'n fath yn - unig, ffynhonnell a nodwyd
3-4	Mae'r arian cyfatebol 30 % sy'n ofynnol ond y mae yn fath arall yn unig, ffynhonnell heb eu nodi
1-2	Rhywfaint o arian cyfatebol arfaethedig ond yn dderbyniol
0	Dim arian cyfatebol

Mae Ffurflen Cynnig Prosiect yn gofyn am 42 o farciau allan o 70 i gael ei hargymhell i'w chymeradwyo.

8. Cyhoeddusrwydd a gwybodaeth am ddyfarnu'r cyllid

Gan fod LEADER yn gronfa sy'n rhannol yn galluogi ardaloedd gwledig i ddysgu oddi wrth ei gilydd, i drosglwyddo arfer da a gwersi a ddysgwyd, mae'n rhaid i ymgeiswyr prosiect ganiatáu i wybodaeth am eu prosiect gael ei datgelu'n llawn ar goedd. Golyga hyn fod yn rhaid i wybodaeth am brosiectau fod ar gael i'w lledaenu ymhellach ac mae'n rhaid i ymgeiswyr prosiect ganiatau i'w prosiectau gael eu lledaenu a'u cyhoeddi drwy Rwydweithiau LEADER Cymru, y DU a'r Undeb Ewropeaidd.

Yn unol â Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 1303/2013, mae Llywodraeth Cymru'n gorfol cyhoeddi, o leiaf bob chwe mis, manylion am y buddiolwyr sy'n derbyn taliadau Datblygu Gwledig yn cynnwys manylion y cyfryw daliadau. Y manylion a gyhoeddir fydd:

- Enw cyntaf a chyfenw'r buddiolwr neu enw'r cwmni, y bartneriaeth neu'r corff sy'n derbyn yr arian;
- Enw'r dref neu'r ddinas a 3 nodyn cyntaf y Cod Post lle mae'r buddiolwr yn byw e.e. Caerdydd CF10;
- Swm y cyllid, yn cynnwys y cyfraniad gan EAFRD a Llywodraeth Cymru, a dderbyniwyd yn y flwyddyn ariannol.

Cyhoeddir yr wybodaeth hon erbyn 30 Ebrill bob blwyddyn yn <http://cap-payments.defra.gov.uk>

Bydd pob cais i Lywodraeth Cymru i ddatgelu gwybodaeth (yn cynnwys gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r cais am grant neu'r taliad hwn) yn cael ei ystyried yn unol â Chod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Fynediad at Wybodaeth ('y Cod') a rhwymedigaethau statudol Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR) a Deddf Diogelu Data 1998 (DPA). Mae'r Cod yn

adlewyrchu agwedd Llywodraeth Cymru at lywodraeth agored ac mae'n rhoi canllawiau ar sut bydd Llywodraeth Cymru'n ymateb i geisiadau am wybodaeth gan y cyhoedd o dan yr FOIA, yr EIR neu'r DPA.

9. Cyllid

Arian Cyfatebol

Mae'n rhaid i brosiect roi lleiafswm o 30% o arian cyfatebol. Bydd prosiectau sy'n rhoi cyfran uwch o arian cyfatebol yn derbyn sgôr uwch. Does dim modd cael arian cyfatebol o ffynonellau'r UE. Mae enghreiffiau o ffynonellau arian cyfatebol yn cynnwys arian y Cyngor Sir, arian y Loteri, Cyfoeth Naturiol Cymru ayb. Mae'n rhaid i unrhyw arian cyfatebol gaiff ei ddarparu i LEADER gydymffurfio gyda'r un rheolau â grant LEADER.

Gall ymgeiswyr y prosiectau gynnwys cyfraniadau mewn nwyddau; ond, mae'n rhaid iddyn nhw geisio cyngor gan swyddog prosiect Cadwyn Clwyd. Mae'n rhaid nodi cyfraniadau mewn nwyddau yn ystod y cyfnod ymgeisio. Bydd angen i'r ymgeisydd ddarparu amserlenni fel prawf o'r gwaith sydd wedi'i ddynodi fel cyfraniad mewn nwyddau i'r prosiect. Mae'r gwerth cydnabyddedig sydd wedi'i ddynodi i amser gwirfoddoli fel a ganlyn:

Teitl Swydd	Cod SOC	Cyfradd Fesul Awr (£)	Cyfradd Blynnyddol (£)
Gweithwyr Proffesiynol Rheoli Prosiectau Busnes ac Ariannol	2424	23.41	46,992
Gweithwyr Proffesiynol Ymchwil Busnes a Chysylltiedig	2426	18.59	35,298
Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Busnes a Chysylltiedig n.e.c.	3539	14.59	27,890
Hyfforddwyr Galwedigaethol a Diwydiannol	3563	14.76	29,150
Galwedigaethau Gweinyddol Eraill n.e.c.	4159	11.06	21,733
Crefftau Elfennol, Gweinyddu a Galwedigaethau Gwasanaeth	91 a 92	9.79	20,786

(Gall Llywodraeth Cymru newid y cyfraddau hyn heb unrhyw rybudd felly gofynnwch i Swyddog Prosiect Cadwyn Clwyd am y cyfraddau diweddaraf.)

Bydd gofyn i grwpiau gyflwyno amserlenni ar wahân ac wedi'u llofnodi ar gyfer pob unigolyn gan nodi manylion y dyddiad, y gweithgaredd a'r nifer o oriau gaiff eu cyfrannu at ddarpariaeth y prosiect. Bydd Cadwyn Clwyd yn gallu rhoi templed ichi.

Gwariant

Ni chaiff gwariant ei dynnu cyn i gynnig prosiect dderbyn cymeradwyaeth o gefnogaeth ariannol gan y Grŵp Gweithredu Lleol.

Mae'n rhaid i'r holl broiectau sydd wedi'u hariannu trwy LEADER ddangos gwerth am arian a chaffaeliad agored ac eglur o nwyddau a gwasanaethau. Mae'n rhaid i broiectau llynw wrth y gofynion canlynol er mwyn caffael nwyddau a gwasanaethau:

Gwerth Nwyddau/Gwasanaethau (heb gynnwys TAW)	Gofyniad	Gweithredu
£0 - £4,999	Un dyfynbris ysgrifenedig	
£5,000 - £24,999	Tri dyfynbris ysgrifenedig	
£25,000 - £106,046 (Nwyddau a Gwasanaethau)	Cystadleuaeth lawn ac agored	Cyhoeddi'r gofyniad drwy www.sell2wales.gov.wales
£25,000 - £4,104,393 (Gwaith)	Cystadleuaeth lawn ac agored	Cyhoeddi'r gofyniad drwy www.sell2wales.gov.wales
£106,047 ac uwch (Nwyddau a Gwasanaethau)	Cystadleuaeth lawn ac agored	Cyhoeddi'r gofyniad drwy Ewrop drwy www.sell2wales.gov.wales
£4,104,394 ac uwch (Gwaith)	Cystadleuaeth lawn ac agored	Cyhoeddi'r gofyniad drwy Ewrop drwy www.sell2wales.gov.wales

*Caiff dogfennau eu cadw fel tystiolaeth

Gyda dyfynbrisiau tebyg at ei debyg, y cyflenwr gyda'r dyfynbris rhataf gaiff ei ddewis. Fodd bynnag, mewn rhai achosion dydy hi ddim bob tro'n addas dewis y dyfynbris rhataf. Dyma'r achos gan amlaf gyda gwasanaethau lle gall y cynnyrch gorffenedig amrywio llawer yn dibynnu ar y cyflenwr, a dydy manyleb ysgrifenedig ddim yn gallu diffinio hyn. Er enghrafft, comisiynu arbenigwr i ysgrifennu copi o lyfryn neu gyfathrebu gydag arlunydd i greu darn o waith celf. Ar brydiau fel hyn, mae modd adeiladu system sgorio i'r system gaffael, gyda manylion sut caiff y cyflenwr ei ddewis wedi'i amlinellu yn amlwg yn y fanyleb gaiff ei darparu i'r darparwyr. Os bydd y prosiect yn dymuno ymgymryd â chaffaeliad sgorio, dylai'r ymgeisydd gysylltu â'i Swyddog Prosiect Cadwyn Clwyd fydd yn gweithio gyda'r ymgeisydd i ddarparu manyleb.

Byddai dadansoddiad sgorio nodweddiadol fel a ganlyn:

- | | |
|--|-----|
| <ul style="list-style-type: none"> • Gwerth am arian (50 marc) • Dull Gweithredu, Profiad a Gwybodaeth | 50% |
| <ul style="list-style-type: none"> ○ <u>Ymateb i'r briff</u> (25 marc)
Tystiolaeth fod yr ymgynghorydd yn deall y briff yn llawn ac eglurhad clir am sut bydd y cytundeb yn cael ei gyflwyno o fewn y terfynau amser arfaethedig ○ <u>Profiad yr Ymgynghorydd</u> (25 marc)
Sgiliau perthnasol yr ymgynghorydd a phrofiad o weithio ar broiectau tebyg | 50% |

Gwariant

Ni chaiff gwariant ei dynnu cyn i gynnig prosiect dderbyn cymeradwyaeth o gefnogaeth ariannol gan y Grŵp Gweithredu Lleol.

Mae modd gwobrwyd arian LEADER mewn dwy ffordd:

- (a) Gwariant Proiect Uniongyrchol Cadwyn, neu
- (b) Grantiau

(a) Gwariant Proiect Uniongyrchol Cadwyn

O dan y proses hwn, caiff yr arian o'r arian cyfatebol ar gyfer y proiect ei dalu i Gadwyn Clwyd ac yna bydd Cadwyn Clwyd yn comisiynu'r nwyddau a'r gwasanaethau er mwyn darparu'r proiect. Does dim angen i'r ymgeisydd fod â'r llif arian i gefnogi holl wariant y proiect o flaen llaw.

Bydd Cadwyn Clwyd a'r tîm proiect yn casglu dyfynbrisiau ar gyfer gwariant y proiect. Mae dyfynbrisiau ar gyfer gwariant y proiect sydd wedi'u darparu gan bartion eraill heblaw am Gadwyn Clwyd yn dibynnu ar asesiad gan Gadwyn Clwyd i sicrhau gwerth am arian. Gall Cadwyn Clwyd ofyn am fwy o ddyfynbrisiau i sicrhau gwerth am arian. Bydd Cadwyn Clwyd yn derbyn y pris isaf o'r dyfynbrisiau tebyg at ei debyg ac yn cyflwyno Rhif Archeb i'r cyflenwr hwnnw. Lle bo'n briodol, bydd modd darparu caffaeliad sgorio.

Bydd Cadwyn Clwyd yn talu'r holl gyflenwyr yn uniongyrchol am nwyddau a gwasanaethau. Mae Cadwyn Clwyd yn gyfrifol am gyflwyno'r holl Rifau Archeb i gyflenwyr sy'n ymwneud â'r proiect. Fydd Cadwyn Clwyd ddim yn talu unrhyw gais am daliad nwyddau neu wasanaethau gan unrhyw un arall heblaw am Gadwyn Clwyd. Ni chaiff gwariant ei dynnu gan fudiadau trydydd parti a'u hawlio gan Gadwyn Clwyd. Mae Cadwyn Clwyd yn gosod cytundeb am waith yn uniongyrchol gyda darparwyr gwasanaethau a bydd yn talu cyflenwyr yn uniongyrchol hyd at gyfanswm gwerth arian y proiect sydd wedi'i gymeradwyo gan Gadwyn Clwyd. Dydy Cadwyn Clwyd ddim yn gallu talu am unrhyw waith sydd wedi'i wneud lle does dim Rhif Archeb, dydyn ni ddim yn gallu talu am unrhyw waith gafodd ei wneud cyn cyflwyno Rhif Archeb a dydyn ni ddim yn gallu talu anfoneb am fwy na'r ffigwr sydd wedi'i nodi ar y Rhif Archeb sy'n cyfateb i'r gwaith hwnnw.

(b) Grantiau

O dan y proses hwn, bydd yr ymgeisydd yn talu'r holl gyflenwyr yn uniongyrchol ac yna'n adennill y symiau cytunedig (fel sydd wedi'u nodi yn y ffurflen gais gytunedig) gan Gadwyn Clwyd trwy ddefnyddio ei Ffurflen Gais Grantiau. Caiff y ffurflen hawlio ei darparu i ymgeiswyr grantiau llwyddiannus unwaith caiff y proiect ei gymeradwyo. Bydd angen i'r ymgeisydd fod yn ymwybodol o'r gofynion canlynol wrth hawlio arian gan Gadwyn Clwyd:

TAW (Treth ar Werth): Dim ond TAW anadferadwy y mae modd ei hawlio trwy arian yr UE. Os ydy'r mudiad sy'n ymgeisio yn gallu hawlio TAW yn ôl o GthEM yna fydd y mudiad ddim yn gallu cynnwys hyn yn ei hawliad i Gadwyn Clwyd a bydd yn rhaid i'r holl gostau gaiff eu hawlio fod yn net o'r TAW. Ond, os na all y mudiad sy'n ymgeisio hawlio TAW yn ôl, fe allan nhw adhawlio hwn gan Gadwyn Clwyd, ond bydd angen i'r mudiad gyflwyno datganiad ffurfiol yn egluro pam na all y mudiad hawlio TAW yn ôl.

RhCC: Bydd angen i bob mudiad sy'n hawlio nodi'n amlwg ar ei Ffurflen Hawlio beth ydy ei RCC (Rhif Cyfeirnod Cwsmer) gan Lywodraeth Cymru. Bydd Cadwyn Clwyd yn gallu helpu mudiadau sydd heb RCC.

Lle bo'n bosibl, dylai anfonebau fod yn 100% o gostau i'r proiect dan sylw, yn hytrach nag anfonebau sydd wedi'u rhannu dros sawl adran neu broiect gwahanol yn y mudiad.

Dylech nodi y byddwn ni'n talu'r gyfradd ymyrraeth gydnabyddedig ar bob hawliad (fel sydd wedi'i nodi yn y llythyr cymeradwyo).

Bydd angen cadw anfonebau ac adroddiadau banc gwreiddiol yn y mudiad sy'n ymgeisio tan o leiaf yr 31^{ain} o Ragfyr 2028, neu nes bydd Cadwyn Clwyd yn cynghori ei bod hi'n iawn cael gwared arnyn nhw. Mae hyn er mwyn sicrhau y bydd yr anfonebau gwreiddiol ar gael i archwiliwyr eu gweld yn ôl y gofyn ac er mwyn cydymffurfio gyda gofynion cadw dogfennau'r UE.

Gofynion tystiolaeth wrth gyflwyno cais:

1. **Copi o anfonebau wedi'u talu:** yn dangos 100% o'r costau sydd wedi'u hawlio. Mae'n rhaid i gopiau o anfonebau wrth gefn gael eu hysgrifennu i'r mudiad sy'n hawlio neu dderbynebau lle bo'n briodol. Mae'n rhaid i ffotogopïau gael eu cadarnhau gan swyddog perthnasol yn y mudiad. Bydd angen i swyddog cyllid Cadwyn Clwyd weld y dogfennau/anfonebau gwreiddiol. Caiff anfonebau eu gwirio i gadarnhau eu bod yn cyd-fynd â chais y prosiect.
2. **Adroddiadau Banc:** i ddangos bod y mudiad sy'n adhawlio costau gan Gadwyn Clwyd wedi clirio'r costau. Mae'n rhaid i ffotogopïau gael eu cadarnhau gan swyddog perthnasol yn y mudiad. Mae'n rhaid i enw'r mudiad, rhif y cyfrif a'r côd didoli fod yn eglur. Mae adroddiadau ar-lein yn dderbynol ond, os nad ydy'r rhain yn dangos enw'r mudiad a fyddch chi crystal â chyflwyno copi o adroddiad banc hefyd fel ein bod ni'n gallu tystio enw'r cyfrif ayb. Dylai adroddiadau banc gwreiddiol fod ar gael i Swyddog Cyllid Cadwyn Clwyd eu gweld.
3. **Methodoleg Dosbarthu:** Copi o weithdrefnau dosbarthu, er enghraiftt, arwynebedd llawr, nifer o bobl ayb ar gyfer anfonebau gaiff eu rhannu ac sydd heb eu hariannu 100% trwy'r prosiect.
4. **Polisiau Ariannol:** er enghraiftt, gweithdrefnau awdurdodi anfonebau i fudiad sy'n adhawlio costau gan Gadwyn Clwyd. Mae'n rhaid i'r mudiad sy'n hawlio ddefnyddio Polisi Caffael Llywodraeth Cymru i geisio dyfynbrisiau. Yr unig eithriad i hyn ydy pan fydd y mudiadau yn berchen ar bolisi caffael sy'n fwy llym a bydd angen i Gadwyn Clwyd gadarnhau hyn.
5. **Tystiolaeth Caffael:** Tystiolaeth i gefnogi/ddangos bod y mudiad sy'n adhawlio'r costau wedi dilyn y weithdrefn gaffael yn gywir.
6. **Tystiolaeth o waith sydd wedi'i gwblhau:** er enghraiftt, copi o adroddiad ysgrifenedig, tystiolaeth o ddigwyddiadau, datganiadau i'r wasg, gwaith cysylltiadau cyhoeddus ayb.
7. **Adroddiad Cynnydd Ysgrifenedig:** bydd angen ichi gwblhau Adroddiad Cynnydd. Caiff templed ei ddarparu i ymgeiswyr llwyddiannus ar ôl eu cymeradwyo. Dylai hwn gael ei gyflwyno i Gadwyn Clwyd yn ystod cyfnodau penodol y prosiect fel sydd wedi'i nodi yn eich Llythyr Cymeradwyo.
8. **Tystiolaeth Cydymffurfio:** gyda rheolau'r UE.
 - i. Cydnabod arian yr EU yn natganiadau i'r wasg
 - ii. Defnyddio logos yn gywir ar ddogfennau cyhoeddus, amserlenni ayb. Caiff Gwybodaeth Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 a Chanllawiau Cyhoeddusrwydd eu darparu ichi ar ôl derbyn cymeradwyaeth.
 - iii. Gwariant Cymwys - angen cyd-fynd gyda chais y prosiect. Cyfeiriwch at Ganllaw LEADER Llywodraeth Cymru ar gyfer costau anghymwys.
9. **Tystiolaeth Cynhyrchu:** bydd angen ichi ddarparu Tystiolaeth Cynhyrchu. Caiff ffurflenno templed eu darparu ichi ar ôl derbyn cymeradwyaeth a dylech gyflwyno'r ffurflen i Gadwyn

Clwyd yn ystod cyfnodau penodol y prosiect fel sydd wedi'i nodi yn eich Llythyr Cymeradwyo.

10. Costau Staffio

- Does dim modd hawlio costau teithio yn uwch na chyfradd CThEM o 45c y filltir.
- Bydd angen darparu amserlenni yn dangos oriau gwaith y prosiect allan o gyfanswm oriau'r cytundeb. Caiff templed o amserlen ei ddarparu ar ôl derbyn cymeradwyaeth.
- Cyfrifo cost yr awr
- Bydd angen darparu tystiolaeth sy'n cefnogi'r gyfradd yr awr, (er enghraift, Copi o Gytundeb Gwaith, cyflog blynnyddol, cyfraniadau cyflogwr (YG) ac unrhyw gyfraniadau pensiwn ayb)
- Cynhaliaeth - dylech ddarparu copi ardystiedig o dderbynebau a thystiolaeth i ddangos bod gwariant yn cyd-fynd gyda therfynau cynhaliaeth eich mudiad, lle bo'n briodol. Mae cyfraddau cynhaliaeth Cadwyn Clwyd fel a ganlyn: Brecwast £6.57, Cinio £8.59, Swper £18.18. Dylech wybod bod prynu alcohol gydag Arian Ewropeaidd wedi'i wahardd.

Dylech anfon Ffurflenni Hawlio ynghyd â dogfennau ac adroddiadau cefnogi fel sydd wedi'u nodi uchod at: Cadwyn Clwyd, Llys Owain, Stryd y Bont, Corwen, LL21 0AH.

Dylech wybod fod angen i'r 'Swyddog Prosiect' neu ei debyg ac Uwch Swyddog sydd â'r awdurdod i gyflwyno'r cais ar ran y mudiad ill dau arwyddo'r Ffurflen Hawlio.

10. Cyhoeddusrwydd

Mae'n rhaid i brosiectau gydymffurfio â gofynion cyhoeddusrwydd y Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru. Dylai pob prosiect roi cyhoeddusrwydd i'r gefnogaeth a gafwyd pan maent yn sôn am y prosiect wrth y buddiolwyr a / neu'r cyhoedd.

Deunyddiau Print a Digidol ar gyfer y Cyhoedd

Cyn i'r eitemau terfynol gael eu cynhyrchu, mae'n rhaid i Cadwyn Clwyd weld prawf electronig o bob un o'r eitemau a rhoi sêl bendith iddynt. Gellir gwneud hyn drwy anfon e-bost gyda phrawf electronig i'ch Swyddog Prosiect Cadwyn Clwyd. Rhaid i'r eitemau i gyd fod yn gwbl ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) a rhaid dangos logos y cyllidwyr. Sylwer, pan fod Cadwyn Clwyd yn gwirio'r profion, dim ond gwirio eu bod yn bodloni canllawiau laith Gymraeg a Chyhoeddusrwydd Cadwyn Clwyd a wnawn; cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw gwirio cywirdeb y copi a gwneud yn siŵr fod pob caniatâd yn ei le (hawlfraint ayb.).

Yr Iaith Gymraeg

Mae'n rhaid i bob deunydd digidol sy'n cael ei weld gan y cyhoedd fod yn gwbl ddwyieithog (Cymraeg-Saesneg), gyda'r Gymraeg yn ymddangos cyn y Saesneg.

Logos

Mae yna 2 logo cyllid ac mae'n rhaid iddynt fod yn bresennol ar bob eitem sy'n cael eu cefnogi'n ariannol gan y prosiect:



Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency



Y rhain yw logo Cadwyn Clwyd a logo Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig – LEADER – Llywodraeth Cymru (EAFRD/LEADERLIC).

Mae logo EAFRD/LEADERLIC yn cynnwys pum eitem fel a ganlyn:

1. Arwyddlun yr Undeb Ewropeaidd yn unol â'r safonau graffeg a osodwyd allan yn Atodiad III Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 808/2014.
2. Cyfeiriad at y gefnogaeth gan Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD).
3. Logo LEADER
4. Y datganiad "Ewrop yn buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig"; a
5. Logo Llywodraeth Cymru.

Dylai'r logos gael eu gosod gyda'i gilydd mewn llinell, gyda logo EAFRD/LEADER/LIC ar ochr bellaf un y llinell ar y dde. Os oes logos ychwanegol, ni ddylent ymddangos i'r de o logo EAFRD/LEADER/LIC yn y llinell logos. Os oes sawl llinell o logos, ni ddylai'r logos ychwanegol ymddangos i'r de neu uwchben logo EAFRD/LEADER/LIC. Dylid rhoi'r un pwysigrwydd i bob logo; dylent fod yn gyfartal o ran uchder a gofod ac o'r un eglurder. Ni all yr un logo fod yn fwy na logo EAFRD/LEADER/LIC. Dylai'r logos fod mewn lliw ac wedi'u hatgynhyrchu ar gefndir gwyn. Os nad oes dewis ond cefndir lliw, dylid gosod border gwyn o amgylch y logo; dylid osgoi cefndir o liwiau amrywiol. Rhaid i'r logos gael eu hatgynhyrchu mwen maint sy'n caniatáu i'r tesun lleiaf gael ei ddarllen heb drafferth.

Gellir cael y logos mewn fformat electronig gan eich Swyddog Prosiect Cadwyn Clwyd.

Datganiadau i'r Wasg

Mae'n ofyniad fod Cadwyn Clwyd yn cael gwybod am gynlluniau cysylltiadau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â phrosiectau a gefnogir gan Cadwyn Clwyd, ac mae'n rhaid i ni gymeradwyo unrhyw ddatganiadau i'r wasg a baratowyd, cyn eu rhyddhau. Gofynnwn yn arbennig fod cydnabyddiaeth yn cael ei gynnwys, wedi'i geirio rhywbeth fel yr isod:

Cymraeg

Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Saesneg

This project has received funding through the Welsh Government Rural Communities - Rural Development Programme 2014-2020, which is funded by the European Agricultural Fund for Rural Development and the Welsh Government.

Argymhellir fod unrhyw gysylltiadau â'r wasg yn cael eu rheoli'n ofalus drwy gynhyrchu datganiad i'r wasg (dogfen ysgrifenedig fer gyda'ch neges ac yn manylu ar y ffeithiau pwysig i gyd, fel arfer tua un dudalen A4) cyn cysylltu â nhw. Mae erthyglau a ysgrifennir gan ohebwyr o'r dechrau, hyd yn oed sawl cyfweliad, yn aml yn tuedd i gynnwys gwallau. Os ydych yn paratoi datganiad i'r wasg, mae gennych gyfle i ysgrifennu neges a

baratowyd a'i dosbarthu i bob un o aelodau'r pwylgor a'r partneriaid i gael eu sylwadau. Yna dylech gysylltu â'r wasg, rhoi'r datganiad iddyn nhw, a threfnu cyfweliadau a chyfleoedd i dynnu llun. Hyd yn oed mewn digwyddiadau lansio mae'n gyffredin i'r wasg a wahoddwyd gael datganiad i'r wasg a baratowyd hefyd.

Dylai unrhyw ddatganiad i'r wasg, testun cyfathrebu neu ddeunyddiau sy'n cynnwys logos gael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru cyn cael eu dosbarthu. Gwnewch yn siŵr fod dogfennau'n cael eu hanfon i'r Swyddog Prosiect perthnasol yn Cadwyn Clwyd fel y gall ef hi gael sêl bendith Llywodraeth Cymru ar y deunydd cyhoeddusrwydd. Dylai prosiectau ganiatau digon o amser i hyn ddigwydd, gan y gall gymryd hyd at wythnos.

Eich gwefan

Dylid nodi'n glir ar wefan y noddwr ei fod wedi cael arian gan yr Undeb Ewropeaidd ac arddangos y logo (a logo LEADER lle mae hynny'n berthnasol) yn glir ar y dudalen hafan a hefyd dolen i wefan y Comisiwn Ewropeaidd sy'n ymwneud a'r EAFRD – <http://eur-lex.europa.eu/browse/summaries.html>. Os oes yna logos eraill ar y dudalen, mae'n rhaid i bob logo fod yr un mor weladwy ac amlwg a'r lleill.

Cyfryngau Cymdeithasol

Rydym yn disgwl i dudalen hafan eich gwefan a'ch presenoldeb cyfryngau cymdeithasol gydnabod arian gan yr EAFRD a Llywodraeth Cymru ar ffurf logo a geiriad. Ni ddisgwylir ichi gynnwys y logo a'r geiriad ym mhob neges.

11. Monitro a Gwerthuso

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn bod proses monitro a gwerthuso yn ei le ar gyfer yr holl brosiectau. Bydd Cadwyn Clwyd yn comisiynu ymgynghoriaeth annibynnol i ymgymryd â'r gwaith monitro a gwerthuso ar gyfer yr holl brosiectau LEADER sydd wedi dilyn dull o gefnogaeth ariannol Gwariant Prosiect Uniongyrchol Cadwyn. Er mwyn ariannu a bod yn gyfateb i'r gwariant hwn, bydd angen i'r rhan 'Monitro a Gwerthuso' fod yn rhan o adran costau pob cais prosiect. Dylai costau monitro a gwerthuso fod 1% o gyfanswm costau'r prosiect. Er enghraifft, petai cyfanswm costau'r prosiect yn £10,000, byddai costau Monitro a Gwerthuso fel rhan o'r ffigwr hwn yn £100.

Ar gyfer arian LEADER sydd wedi'i wobrwyd fel Grant, bydd angen i'r ymgeisydd nodi'n fanwl sut bydd yn ymgymryd â'r gwaith monitro a gwerthuso'r prosiect. Gall ymgeiswyr gynnwys costau ymgymryd â'r gwaith monitro a gwerthuso eu prosiect yn y tabl cyllid ar y ffurflen gais. Bydd angen i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth eu bod wedi ymgymryd â'r gwaith monitro a gwerthuso eu prosiect wrth gyflwyno hawliadau.

12. Dangosyddion Perfformiad a Thystiolaeth o Weithgaredd Prosiect

Gofynnir i'r ymgeisydd helpu Swyddogion Prosiect Cadwyn Clwyd i gofnodi tystiolaeth o weithgaredd prosiect a sicrhau fod pob tystiolaeth archwilio sy'n gysylltiedig â Dangosyddion Perfformiad y prosiect yn cael ei chasglu. Dylai'r Dangosyddion Perfformiad sydd i gael eu cyflawni gael eu hadnabod wrth wneud y cais. Bydd y Swyddogion Prosiect yn rhoi canllawiau ar y Dangosyddion Perfformiad a'r gofynion tystiolaeth ar gyfer archwiliad.

Rhif	Dangosydd Perfformiad
LD-CL.001	Nifer o astudiaethau dichonolrwydd rydych chi am eu cwblhau

LD-CL.002	Nifer o rwydweithiau rydych chi am eu sefydlu
LD-CL.004	Nifer o weithgareddau peilot rydych chi am ymgymryd â nhw (dulliau newydd/cynnrych newydd/prosesau newydd/gwasanaethau newydd)
LD-CL.005	Nifer y Canolfannau Cymunedol
LD-CL.006	Nifer o ymarferion cyflwyno gwybodaeth/hyrwyddo a/neu farchnata rydych chi am ymgymryd â nhw
LD-CL.007	Nifer o randdeiliaid rydych chi am gydweithio â nhw
LD-CL.008	Nifer o bobl rydych chi am eu cefnogi

Cyf.	Dangosydd Perfformiad	Diffiniad	Nodweddion	Enghraffit	Tystiolaeth Archwilio
DANGOSYDDION LEFEL RHAGLEN					
LD-CL.001	Nifer y Astudiaethau Dichonoledeb	Nifer o astudiaethau dichonoledeb periodol a gomisiynwyd neu a wneir drwy'r rhaglen i ddarparu'r ymchwili ceffndiriol ar grif problem neu fater periodol a chynhyrchu gwerthasiad ysgrifenedig cynhwysfawr o'r materion, yr atebion amgen, y costiadau ariannol, daidansoddiadau risg manwl ac argymhellion ar gylchau nesaf. (Cyfeirnod at ganillawiau LEADER Fersiwn 1 Medi, 2015 paragraff 31).	DB	Copï terfynol caled o'r adroddiad.	
LD-CL.002	Nifer y Rhwydweithiau sefydledig	Nifer o rhwydweithiau flurfol sydd wedi cael eu creu o ganlyniad uniongyrchol i'r rhaglen LEADER ac nad oedd yn bodoli cyn y maglen. (Gellir sgorio pob rhwydweithun wrthwymedil yn unig yn ystod oes y rhaglen a gymeradwywyd)	DB	Creu rhwydweithaeth o ddiddordeb arbennig.	<ul style="list-style-type: none"> • Pob un o'r canlynnoedd: • Manylion am amcanion • Manylion y gweithgareddau • Rhesstr o aelodau • Dydiadau Cyfarfod, agenda a chofnodion
LD-CL.003	Nifer y swyddi a ddiogelywyd trwy brosiectau a gefnogir	Swyddi a ddiogelywyd lle gwydodys bod swyddi mewn pergel yn ystod y 12 mis nesaf. Dylai swyddi gael eu sgorio fel FTE a pharhaol (disgwylir i swydd dymhorol gael ei sgorio os disgwyli'r gweithdigaeth efo am gylch / amheredol, dylai heth y geiriad fel cyfran o'r rhwydweithiau wrthwymedil). Dylai swydd ei hun gael ei sgorio, nid amcangyfrif o faint o bobol all wreul y swydd. Os na fydd y swydd yn lawn amser yna bydd angen rhannu nifer yr oriau yi wytihos gyda 30 i ddod o hyd i'r gyfran sy'n cynchioli FTE (ees byddai 18 awr yr wytihos yn 0.6 FTE).	DB	Cadarnhad ysgrifenedig fod y cyllid LEADER wedi creu swydd GLA	
LD-CL.004	Nifer y gweithgareddau peilit a gynhalwyd / cerngi / supported	Nifer y gweithgareddau peilit a gynhalwyd / gefnogwyd drwy'r gweithgareddau meithrin gallu, wediu rhannu yn ddy danasoddio a nodweddion.	DB	Dulliau newydd Cymrych newydd Prosesau newydd Gwasanaethau newydd	<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun sy'n amlinellu pob un o'r: • Camau / gweithgareddau yn y pellot.
LD-CL.005	Nifer yr Hybliu Cymunedol	Nifer y canolfannau cymunedol newydd a gafodd eu ffurfio o ganlyniad uniongyrchol i'r rhaglen LEADER .	DB	Creu Hwb â thema / arbenigol	<ul style="list-style-type: none"> • Pob un o'r canlynnoedd: • Manylion yr amcanion • Manylion y gweithgareddau • Rhesstr o aelodau • Dydiadau Cyfarfod, agenda a chofnodion
LD-CL.006	Nifer o gamau lledeua gwybodaeth / hyrwyddo a / neu weithgareddau marchnata i godi ymwybyddiaeth o'r SDAU a / neu ei brosiectau	Nifer y camau gweithedu a wnaed gan y Grŵp Gweithredu Leol i godi ymwybyddiaeth ac egluro nod, amcanion a'r gweithgareddau a gylchnewydd drwy' Strategaeth Datblygu Leol i'r rhwydweithiau. Mae nifer y gweithgareddau a gynllunir ac a datgeini a wnaed gan y Grŵp Gweithredu Leol sy'n hyrwyddo'r Strategaeth Datblygu Leol a'i brosiectau NEU cynhyrchu a dosbarthu deunyddiau wedi'u hanelu at farchnata a hyrwyddo'r Strategaeth Datblygu Leol	DB		<ul style="list-style-type: none"> • Copï caled o'r deunyddiau.
LD-CL.007	Nifer y rhanddelliad yn cymryd ran	Rhanddelliad: Urihyw grŵp neu unigolyn a all effeithio neu yr effeithir arnynt drwy gyflawni amcanion y prosiect. Gall yr hain fod yn bobol, gwpiau neu enidau sydd â'r ôl a diodderdeb yn y amcanion ac yng ngweithredu'r prosiect. Maent yn cynnwys y gymuned, y mae' prosiect neu'r rhaglen yn ceisio ei newid. Ymgysylltu: Rhanddelliad sy'n ymneud yn weithredol â'r prosiect ar unrhyw adeg.	DB	Ymgyssylltu â Rhanddelliad drwy Rwydweithio, animeiddio , neu ymgynghori.	<ul style="list-style-type: none"> • Manylion y gweithgareddau ymgyssylltu perthnasol. • cofnodiad presenoleb os yn berthnasol.
LD-CL.008	Nifer y cyfranogwyd a gelngor	Cyfranogwy : nifer y bobl sy'n mynychu digwyddiad i ledaenu gwybodaeth, ac ati Nodwch na all y rhif sy'n derbyn unrhwyd faint o yngrych postol sy'n gysylltedig â dosbarthu gwybodaeth (ee dosbarthu crynodeb o'r adroddiad)	DB	Cyfranogwy sy'n cymryd rhan yn sesiwn ymwybyddiaeth.	<ul style="list-style-type: none"> • Cofnodi ysgrifenedig o nifer y cyfranogwy

13. Datganiad Preifatrwydd Cadwyn Clwyd

Mae Cadwyn Clwyd yn ymdrin a phreifatrwydd mewn modd difrifol iawn ac yn cydymffurfio â phob agwedd ar fframwaith deddfwriaethol diogelu data'r DU sy'n cynnwys Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol Ewrop (GDPR) a deddfwriaeth y DU ei hun. Gallwch weld ein polisi preifatrwydd yma <http://cadwynclwyd.co.uk/wp-content/uploads/Cadwyn-Clwyd-Privacy-Policy.pdf> sy'n esbonio sut rydym yn diogelu eich hawliau personol.

Background and Guidance Notes for LEADER Applications to Denbighshire, Flintshire and Wrexham Local Action Groups

1. Background: What is LEADER and what is the Local Action Group (LAG)?

LEADER is an initiative to support rural development projects initiated at the local level in order to revitalise rural areas and create jobs. It is part of the Welsh Government Rural Communities – Rural Development Programme 2014 – 2020, which is financed by the Welsh Government and European Agricultural Fund for Rural Development (EAFRD).

‘LEADER’ is the term used to describe a special type of local development approach for rural areas. The name LEADER comes from the French acronym ‘Liaison Entre Actions pour le Development de L'Economie Rurale’ (which roughly translates to ‘links between actions for developing the rural economy’). LEADER’s approach involves a rural development methodology based a number of core components including partnership, ‘bottom-up’ development, innovation and cooperation.

The LEADER programme is implemented by Local Action Groups (LAGs). There are three LAGs in North East Wales, each operating on a county basis in the rural areas of Denbighshire, Flintshire and Wrexham. Each LAG is made up of representatives from the public, private, and community/voluntary sectors. Cadwyn Clwyd is the Administrative Body for each LAG, assisting each one to implement its LEADER programme in their respective areas.

